ETHOLIAD SENEDDOL

# Etholiad dros Etholaeth Gorllewin Casnewydd

1. Cynhelir etholiad am aelod i wasanaethu yn Nhŷ'r Cyffredin dros Etholaeth Seneddol Gorllewin Casnewydd.

2. Rhaid i bapurau enwebu gael eu cyflwyno i'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau Dros Dro yn Ystafell 527a, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun hyd ddydd Gwener) ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **4pm** ar **Ddydd Gwener, 8 Mawrth, 2019**. Derbynnir ernesau ymgeiswyr ar ffurf arian parod neu ddrafft banc wedi'i godi ar un o fanciau'r stryd fawr.

3. Gellir cael papurau enwebu yn y lle ac ar yr adegau a grybwyllir uchod. Bydd y Swyddog Canlyniadau Dros Dro, ar gais unrhyw etholwr, yn paratoi papur enwebu i gael ei lofnodi.

4. Os ymleddir yr etholiad, bydd y bleidlais yn digwydd ar **DDYDD IAU, 4 Ebrill, 2019**.

5. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn canol nos ar **DDYDD MAWRTH 19 Mawrth 2019**.

**6.** Rhaid i geisiadau i gofrestru, newid neu ddiddymu pleidleisiau trwy'r post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod erbyn **5pm** ar **DDYDD MERCHER 20 Mawrth 2019**

7. Rhaid i geisiadau i benodi dirprwy gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol isod erbyn **5pm** ar **DDYDD MERCHER 27 Mawrth, 2019**.

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail analluogrwydd corfforol neu am resymau sy'n ymwneud â gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod erbyn **5pm** ar **4 EBRILL 2019**. Rhaid bod yr analluogrwydd corfforol wedi digwydd ar ôl **5pm ar DDYDD MERCHER 27 MAWRTH 2019**. Er mwyn gwneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol ar ôl **5pm** ar **DDYDD MERCHER 27 MAWRTH 2019**.

| Ardaloedd | Manylion Cyswllt y Swyddfa Cofrestru Etholiadol | |
|---|---|---|
| Gorllewin Casnewydd: Allt yr Ynn, Betws, Caerllion, Y Gaer, Y Graig, Malpas, Maerun, Pilgwenlli, Tŷ-du, Shaftesbury, Stow Hill, Parc Tredegar | Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR | 01633 210744/5 |

**Will Godfrey**
**Swyddog Canlyniadau Dros Dro,**
**Y Ganolfan Ddinesig,**
**Casnewydd,**
**NP20 4UR**

**Dyddiedig heddiw 5 Mawrth, 2019**.

**Noder**: - Dylai ymholwyr gysylltu â Philip Johnson, y Dirprwy Swyddog Canlyniadau Dros Dro, am fwy o wybodaeth ar 01633 210742. Argymhellir gwneud apwyntiad i gyflwyno papurau enwebu.